Lefel 5 Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff HND (Amser Llawn)

Bydd y rhaglen hon yn addas i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiant hyfforddi chwaraeon. Gallai hyn gynnwys gweithio o fewn y diwydiant datblygu chwaraeon, y diwydiant iechyd a ffitrwydd, cryfder a chyflyru neu ddadansoddi perfformiad.

Cynhelir y cwrs hwn mewn partneriaeth â Pearson.

Cod UCAS: CX62

Gofynion Mynediad

Mae meini prawf mynediad yn manylu ar gynnig nodweddiadol ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais ar sail unigol sy'n golygu y gallem wneud cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich cynnig, cysylltwch â'n Tîm Derbyniadau.

Cynnig nodweddiadol: 2 Lefel A Gradd E neu broffil PP/PPP o gymhwyster BTEC Lefel 3 a thri TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol).
Gellir derbyn myfyrwyr hyn (dros 21 oed) gyda chymwysterau academaidd is/dim cymwysterau academaidd a chânt eu hasesu fesul achos gan edrych ar y proffil unigol a'r profiad gwaith/bywyd ac ati.

Rhagolygon Gyrfa

Y llwybr Rhagolygon Gyrfa cydnabyddedig ar gyfer y rhaglen hon yw'r BSc (Anrh) Hyfforddi Chwaraeon ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn hyfforddi chwaraeon, er enghraifft: hyfforddwr cymunedol, hyfforddwr ysgol, swyddog 5x60, hyfforddwyr chwaraeon, hyfforddwr chwaraeon penodol, swyddog datblygu chwaraeon a'r diwydiant iechyd a ffitrwydd ehangach.

Modiwlau'r cwrs

Gall Modiwlau gynnwys:
Maeth
Hanfodion Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Anatomeg a Ffisioleg
Sgiliau Proffesiynol
Ymarfer Hyfforddi a Datblygu Sgiliau
Cryfder a Chyflyru ar gyfer Hyfforddi

Asesiad

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gweithdai ymarferol a sesiynau tiwtorial. Bydd yn rhaid i chi gwblhau cyflwyniadau, asesiadau ymarferol ac aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen.

Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Academi Chwaraeon Llandarcy - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2 Flynedd